# Yr Is-Bwyllgor Datblygu Gwledig

## Rhif Cyf y Papur: RDC(3)-07-07

Dyddiad: Dydd Iau 29 Tachwedd 2007
Lleoliad: Y Senedd, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Bae Caerdydd. Ystafell Bwyllgora 3
Teitl: Yr wybodaeth ddiweddaraf ar y datblygiadau ynghlych Clwy'r Traed a'r Genau

### Diben

1. Mae'r papur hwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i aelodau'r Pwyllgor ar ddatblygiadau ynghylch Clwy'r Traed a'r Genau.

### Crynodeb/Argymhellion

2. Bod y Pwyllgor yn ystyried cynnwys y papur briffio yn Atodiad 1.

### Cefndir

3. Mae Clwy'r Traed a'r Genau yn glefyd heintus sy'n effeithio ar anifeiliaid carnau hollt, yn benodol gwartheg, defaid, moch a geifr.

4. Pan gadarnhawyd Clwy'r Traed a'r Genau yn Surrey ar 3 Awst a 12 Medi, rhoddwyd Cynllun Wrth Gefn Clefydau Ecsotig Anifeiliaid Cymru ar waith a sefydlwyd Canolfan Cydgysylltu Argyfyngau Cymru i hwyluso'r ymwneud gyda Defra ar gyfer cyfarfodydd Grŵp Polisi Clefydau Anifeiliaid, y Grŵp Arbenigwyr Cenedlaethol ac Ystafell Friffio Swyddfa’r Cabinet. Roedd hyn hefyd yn ei gwneud yn bosibl rheoli a gweinyddu'r gwahanol faterion a oedd yn deillio o'r achos, trwyddedu, cyfathrebu, briffio a deddfwriaeth.Cadarnhawyd 8 achos o Glwy'r Traed a'r Genau yn Surrey a Berkshire.

5. Datganwyd Parth Cyfyngedig (PC) yng Nghymru fel rhan o waharddiad ar draws Prydain ar symud anifeiliaid a allai ddal y clefyd. Yng ngoleuni materion lles anifeiliaid a hwsmonaeth sy'n effeithio ar y diwydiant da byw, rhoddwyd trefniadau trwyddedu ar waith i'w gwneud yn bosibl symud categorïau penodol, yn dilyn asesiad risg gan filfeddyg.

6. Codwyd y PC yng Nghymru ar 17 Hydref. Yn dilyn gwaith goruchwylio helaeth, ni welwyd unrhyw achosion pellach o Glwy'r Traed a'r Genau. Cododd Defra’r PC yn Surrey ar 19 Tachwedd.

### Camau i'r Pwyllgor Pwnc eu Cymryd

7. Gwahoddir y Pwyllgor i nodi cynnwys y papur hwn.

Elin Jones AC
Y Gweinidog dros Faterion Gwledig

Enw Cyswllt: Christianne Glossop, Prif Swyddog Milfeddygol Cymru (02920 823377).

### Atodiad 1

### Yr Wybodaeth Ddiweddaraf ar Glwyr Traed a'r Genau.

### Cyfyngiadau - achos mis Awst

Rhoddwyd gwybod am yr achos cyntaf o Glwy'r Traed a'r Genau yn Surrey ar 3 Awst 2007. Sefydlwyd parth gwarchod a gwyliadwriaeth o gwmpas y safle heintiedig a datganodd Cymru Barth Cyfyngedig (PC) fel rhan o waharddiad ym Mhrydain ar symud pob anifail a allai ddal y clefyd. Roedd gwaharddiad yn hanfodol i gyfyngu ar ledaeniad y clefyd.

Yn ystod cyfnod y Clwy, rhoddwyd cyfres o Drwyddedau Cyffredinol a threfniadau trwyddedu unigol ar waith i ddelio ag anawsterau penodol yr oedd y diwydiant da byw yn eu hwynebu, yn benodol mewn perthynas â materion lles anifeiliaid a hwsmonaeth anifeiliaid (ee materion cynnyrch llaeth, triniaeth filfeddygol, stoc trig a chaniatáu i anifeiliaid fynd yn uniongyrchol i'r lladd-dy). Dim ond yn dilyn asesiadau risg gan filfeddyg y caniatawyd symudiadau o'r fath ac roedd amodau llym i leihau'r risg.

Ar 8 Awst, yn dilyn Penderfyniad gan y Comisiwn Ewropeaidd, rhoddwyd deddfwriaeth ar waith yn gwahardd allforio anifeiliaid byw, cig a chynnyrch cig. Ar 24 Awst, codwyd y PCau a'r gwaharddiad ar allforio gan weinyddiaethau Prydain. Gweithredwyd rheol 20 diwrnod ar wahardd symud da byw nes i’r gwaharddiadau gael eu codi yn Surrey. Codwyd pob gwaharddiad ar 8 Medi ac ailsefydlwyd y cyfnod 6 niwrnod arferol ar wahardd symud anifeiliaid.

### Cyfyngiadau - achos mis Medi

Ar 12 Medi cadarnhawyd achos arall o Glwy’r Traed a’r Genau ar fferm yn Surrey. Yn ddiweddarach, cadarnhawyd achosion pellach eto o'r Clwy yn Surrey a Berkshire. Ailsefydlwyd y PC a'r gwaharddiad ar symud anifeiliaid. Cynhaliwyd cyfres arall o asesiadau risg milfeddygol a gweithredwyd y ddau drefniant trwyddedu mewn perthynas â lles anifeiliaid a hwsmonaeth anifeiliaid. Cyhoeddwyd tua 35 trwydded wahanol rhwng 12 Medi ac 17 Hydref pan godwyd y gwaharddiadau.

Ar 13 Medi, cyhoeddodd y Comisiwn Ewropeaidd Benderfyniad yn gwahardd allforio anifeiliaid byw, cig a chynnyrch cig o Brydain. Codwyd rhai gwaharddiadau ar 12 Hydref i ganiatáu allforio peth cynnyrch anifeiliaid o ardaloedd penodol ym Mhrydain.

Yn dilyn goruchwylio helaeth ac asesiadau risg milfeddygol, codwyd y Parth Gwarchod o amgylch y safle heintiedig a'r holl gyfyngiadau ar symud anifeiliaid y tu allan i'r Ardal Risg yn Surrey ar 17 Hydref. Codwyd y PC yng Nghymru ac ailsefydlwyd y rheolau arferol (rheol 6 niwrnod ar symud anifeiliaid).

Ar 21 Hydref, lleihawyd yr Ardal Risg yn Surrey i 10km, ac ar 5 Tachwedd codwyd y Parth Gwyliadwriaeth. Er bod yr Ardal Risg yn dal yno, dechreuwyd symud anifeiliaid unwaith eto. Gwnaed gwaith goruchwylio helaeth o amgylch Sefydliad Pirbright a'r safle heintiedig, a daethpwyd i'r casgliad nad oedd y Clwy yn bresennol bellach.

## Goblygiadau masnach

Ers 17 Hydref mae'r Comisiwn wedi cyhoeddi cyfres o hawddfreintiau i'r cyfyngiadau ar allforio. Mae hyn wedi dangos hyder y Comisiwn yn y mesurau a gymerwyd i ddiddymu'r Clwy. Ar 6 Tachwedd, cytunodd y Comisiwn ar Benderfyniad pellach, a ddaeth i rym yng Nghymru ar 20 Tachwedd. Rhannodd yr hawddfraint hon Brydain yn dair ardal; De-ddwyrain Lloegr lle na chaniateir allforion, ardal o amgylch De-ddwyrain Lloegr lle cyfyngir ar allforion, a gweddill Prydain lle adferwyd yr amodau i'r hyn a oeddent cyn y Clwy. Mae'r gwaharddiad ar symud anifeiliaid byw o'r ardal lle mae gwaharddiad neu gyfyngiad ar allforion yn parhau, gan ddiogelu'r statws allforio yng ngweddill Prydain.

Ar sail mesurau rheoli'r clefyd yn y DU, yn benodol canlyniadau'r goruchwylio a'r profion, disgwylir i'r Comisiwn lacio ymhellach y cyfyngiadau ar allforio. Er hynny, mae'r gwaharddiad ar allforio anifeiliaid byw yn debygol o barhau hyd ddiwedd Rhagfyr neu ddechrau Ionawr.

## Pirbright

Mae adroddiadau gan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch, yr Athro Spratt ac Adroddiad Epidemiolegol Defra ei hun yn cydnabod mai haint o safle Pirbright yw ffynhonnell debygol y Clwy. Ers 7 Medi, mae'r Awdurdod Gweithredol a Defra wedi cynnal cyd-arolygiadau pellach, ac mae'r gwaith wedi dechrau ar y Cynllun Gwella. Bydd angen cwblhau'r holl waith hanfodol ar safle Pirbright cyn y gellir ailddechrau gweithredu'n llawn yn ei holl gyfleusterau. Mae gwaith adferol wedi'i wneud ar y safle ac wedi'i brofi'n helaeth, gan gynnwys gwaith ar y pibau elifion a nodwyd gan yr Awdurdod Gweithredol. Mae arolygwyr yr Awdurdod Gweithredol a Defra wedi adolygu'r gwelliannau a wnaed ar y safle (gan gynnwys y gweithdrefnau gweithredu) ac maent wedi dod i'r casgliad ei bod yn ddiogel ailgychwyn y broses o greu brechlynnau.

Ar 6 Tachwedd, rhoddodd Defra drwydded y Gorchymyn Pathogenau Anifeiliaid Penodedig yn ôl i gwmni Merial Animal Health i ganiatáu iddynt ddefnyddio firysau byw o Glwy'r Traed a'r Genau a'r Tafod Glas i greu brechlynnau, yn dilyn arolygiadau, profion a thystiolaeth ddogfennol helaeth bellach.

**Yr Effaith ar Gymru**

Mae'r achosion o Glwy'r Traed a'r Genau wedi effeithio'n sylweddol ar y diwydiant ffermio yng Nghymru. Er ein bod yn gwbl ymwybodol o'r caledi yr oedd y cyfyngiadau yn eu hachosi i deuluoedd ffermio, fodd bynnag, roedd y rheolaethau hyn ar symud anifeiliaid yn hanfodol er mwyn diogelu Cymru rhag y clefyd.

Ymhlith y cymorth a roddwyd i'r Diwydiant mae:

Cydnabod anghenion y diwydiant a chaniatáu symud rhai anifeiliaid, gydag amodau llym, cyn gynted ag yr oedd yn saff gwneud hynny. Caniatawyd symud anifeiliaid i ddibenion lles o 19 Medi, eu symud i ganolfannau casglu a marchnadoedd coch o 17 Medi, ailagor marchnadoedd gwyrdd ar 4 Hydref ac arwerthiannau fferm ar 8 Hydref.

Cyfarfodydd a chyfathrebu rheolaidd â phobl berthnasol y diwydiant.

Cynllun Gwaredu Ŵyn Ysgafn (Lles) ar gost o £6.5 miliwn.

Rhoi £1 miliwn i Hybu Cig Cymru i helpu gyda marchnata a hyrwyddo ŵyn ysgafn.

Trafodaethau â'r prif fanwerthwyr i ddod o hyd i ffordd o hyrwyddo cynnyrch cig o Gymru.

Tynnu sylw Hilary Benn, yr Ysgrifennydd Gwladol, at y ffaith y dylai Llywodraeth y DU gyllido pecynnau cymorth ar draws Prydain yn sgil yr achosion o Glwy'r Traed a'r Genau yn Lloegr.